

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 18 MEDI 2023

Yn Cynghorydd Taylor (Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Ahmed, Ash-Edwards, Lent, Lewis, Littlechild a/ac McGarry

### 9 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr A. Ahmed a Boes.

### 10 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Taylor fuddiant personol ac anrhagfarnol yn eitem 4 gan fod ei chwaer-yng-nghyfraith yn cael ei chyflogi gan bensaer y prosiect, er na fyddai'n gweithio ar y cynllun ei hun.

### 11 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

### 12 : DIWEDDARIAD AR GAFFAEL PARTNER DATBLYGWR AR GYFER PROSIECT ADFYWIO TREM Y MÔR

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai nod yr eitem hon oedd rhoi gwybodaeth gefndirol i'w galluogi i graffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet ynghylch caffael Partner Datblygwr ar gyfer prosiect adfywio Trem y Môr, gyda mewnwleddiad i'r broses gaffael a chanlyniad yr ymarfer gwerthuso tendrau, gan gynnwys y cynigydd a ffeirir a'r camau nesaf.

Croesawyd y Cadeirydd ar gyfer yr eitem hon:

- Y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau
- Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau Cyngor Caerdydd
- Dave Jaques, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Datblygu ac Adfywio Cyngor Caerdydd

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny rhoddodd Swyddogion gyflwyniad. Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Archwiliodd y Pwyllgor oblygiadau cael dim ond un cynigydd, gan nodi diffyg opsiynau posibl o ran meincodi, a chlywodd fod hyn yn hytrach yn cael ei wneud yn erbyn costau prosiectau tebyg y cyngor i sicrhau gwerth am arian. Roedd swyddogion yn cydnabod ei fod yn bryder mai dim ond un cynigydd oedd wedi bod, a'u bod yn ymchwilio i pam fod hynny wedi digwydd. Roedd yn brosiect cymhleth a oedd yn gofyn i'r partner datblygu ddarparu cartrefi i'w gwerthu mewn camau yn y dyfodol, a ddaeth â lefel uwch o risg, tra bod amodau'r farchnad hefyd yn ffactor.

Roedd swyddogion yn hyderus bod gan y partner datblygu y profiad cywir o gyflawni'r math hwn o brosiect cymhleth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Nododd yr Aelodau lwybr cost a phris cyffredinol y prosiect gan archwilio'r cyfnod adolygu rhwng pob cam o'r datblygiad lle byddai hyfywedd ariannol yn cael ei asesu, a holwyd a allai'r cyngor gael ei 'gloi i mewn' i drefniant is-optimaid. Dywedodd swyddogion y byddai mecanweithiau o fewn y cytundeb datblygu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Nododd yr aelodau mai'r risg o gael un partner datblygu oedd y partner hwnnw'n mynd i'r wal, ond roeddent hefyd yn cydnabod bod y risg hon yn bodoli ym mhob prosiect. Ychwanegodd swyddogion pe bai gan y Cyngor bryderon am hyfywedd y cam nesaf bod ail-dendro'n opsiwn realistig, er y byddent yn ceisio ymgysylltu â'r partner datblygu mewn ffordd gydwethredol.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ynghylch yr effaith ar breswylwyr ac eglurder ar lefel y cymorth a gynigir i denantiaid y cyngor a thenantiaid preifat. Esboniodd swyddogion gymhlethdodau'r materion hyn a sut yr oedd yr ymgynghoriadau'n bwriadu mynd i'r afael â nhw. Ni fyddwn yn gwybod os byddai angen archebion prynu gorfodol ai peidio tan ar ôl i'r ymgynghoriad gael ei gynnal.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch y trefniadau pontio ar gyfer preswylwyr, yn enwedig ym Mloc Tŵr 1. Esboniodd swyddogion eu bod nhw i gyd wedi cael eu hailletya ac nad oedd unrhyw gwynion wedi bod am y trefniadau. Roedd yr aelodau o blaid ymgysylltu'n barhaus â thrigolion ac roeddent yn falch o glywed bod hyn yn rhan allweddol o'r gwerthusiad a fyddai'n digwydd rhwng pob cam.

PENDERFYNWYD - Eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod tra bod y Pwyllgor yn trafod yr eitem hon sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhannau 4 a 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

### 13 : ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YR AWDURDOD LLEOL 2022/23

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau mai nod yr eitem hon oedd rhoi gwybodaeth gefndirol i hwyluso'r gwaith o graffu ar Adroddiad Blynyddol drafft Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2022/23 cyn i'r Cabinet a'r Cyngor ei ystyried.

Croesawyd y Cadeirydd ar gyfer yr eitem hon:

- Y Cynghorydd Norma Mackie, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Oedolion)
- Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau Cyngor Caerdydd
- Jane Thomas, Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau Cyngor Caerdydd
- Deborah Driffield, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Cyngor Caerdydd

- Y Cyngorydd Lee Bridgeman, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc
- Y Cyngorydd Robert Hopkins, aelod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny gofynnwyd i Aelodau am unrhyw gwestiynau, sylwadau neu arsylwadau.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ynghylch sut y byddai'r gwasanaeth yn ymateb i'w heriau parhaus mewn cyd-destun ariannol anodd, a chlywodd y byddai cydweithredu a chydweithio llwyddiannus yn allweddol. Nododd yr Aelodau y gellid gwneud yr heriau a wynebir yn gliriach yn yr adroddiad, er eu bod yn cydnabod bod gofyn i swyddogion ddilyn fformat rhagnodedig.

Tynnodd yr Aelodau sylw at nifer o faterion yn ymwneud â staffio, yn enwedig eu pryder y gallai'r gweithwyr cymdeithasol deimlo dan straen dan y model newydd o weithio yn y gwasanaethau plant pe bai'n arwain at fwy o lwythi achos. Esboniodd swyddogion fod y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion yn wynebu gwahanol faterion staffio, gyda chyfradd swyddi gwag uwch yn y gwasanaethau plant oherwydd bod canfyddiad ei fod yn peri mwy o straen (canfyddiad yr ymdrechodd y gwasanaeth i'w newid), a gweithlu sy'n heneiddio yn y gwasanaethau oedolion.

Archwiliodd y Pwyllgor y rhesymau dros oedi wrth neilltuo gweithwyr cymdeithasol i oedolion ag anabledau, a nododd bryderon gan rieni ac unigolion a oedd yn teimlo y byddent yn elwa o fwy o barhad. Archwiliodd yr Aelodau effeithiolrwydd y *'Dull Cymru Gyfan o ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn y gwasanaethau plant'*, yr oedd y swyddogion yn adrodd ei fod yn mynd rhagddo'n dda.

Trafododd yr Aelodau gwestiynau'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern a'r rhesymau dros fwy o ecsbloetio, gan nodi bod hyn wedi'i achosi'n rhannol gan fod mecanweithiau mwy effeithiol i'w adrodd y dyddiau hyn, ond roedd hefyd yn gysylltiedig â chynnydd mewn tlodi a diffyg cyfleoedd.

Mynegodd yr Aelodau bryderon am gynaliadwyedd y defnydd o wirfoddolwyr yn ogystal â mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, a nodwyd y mater o bobl sy'n gadael gofal nad oeddent mewn addysg na hyfforddiant wrth iddynt bontio i fod yn oedolion. Roedd hwn yn faes pwysig o waith parhaus y byddai swyddogion yn parhau i'w fwydo'n ôl i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

Diolchodd y Pwyllgor i'r swyddogion am eu hymgysylltiad parhaus â chraffu gan gydnabod y gwaith a wnaed i greu'r adroddiad.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

14 : RHAGLEN WAITH PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION 2023/24

Rhoddyd gwybod i'r Aelodau fod yr adroddiad hwn yn rhoi'r allbwn i'r Pwyllgor o'r Fforwm Rhaglennu Gwaith a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2023. Roedd y rhestr o eitemau a awgrymwyd yn y fforwm wedi'u poblogi'n galendr i'w hystyried a'u

cymradwyo, gan gynnwys darpariaeth i'r digartref a mynediad at ddarpariaeth iechyd meddwl. Nododd y swyddog hefyd fod aelod wedi awgrymu cael diweddariad ar Strategaeth Waith y Gwasanaethau Oedolion.

Roedd y Pwyllgor yn hapus i gael y diweddariad hwnnw a chyda'r amserlen ddangosol ar gyfer y cynllun gwaith ar gyfer eleni.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

15 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Doedd dim.

16 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

16 Hydref 2023 am 4:30pm.